
AGW General Report 2005 Welsh2.qxp 23/6/05 4:01 pm Page 1

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Mehefin 2005
www.wao.gov.uk

# Adroddiad Cyffredinol Archwilydd Cyffredinol Cymru 2005: Archwiliad Ariannol Cyrff Llywodraeth Ganol yng Nghymru



AGW General Report 2005 Welsh2.qxp 23/6/05 4:01 pm Page 2

# Adroddiad Cyffredinol Archwilydd Cyffredinol Cymru 2005: Archwiliad Ariannol Cyrff Llywodraeth Ganol yng Nghymru

Yr wyf wedi paratoi'r adroddiad hwn i'w gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998.

Roedd y tîm astudiaeth o Swyddfa Archwilio Cymru'n cynnwys Geraint Morgan, Kay Palmer, Jo Peddle, Jeannette Sweet a Mike Usher.

**Jeremy Colman**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**2-4 Park Grove**
**Caerdydd**
**CF10 3PA**


Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwbl annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol a'r Llywodraeth. Mae'n archwilio ac yn gwirio ac yn ardystio cyfrifon y Cynulliad a chyrff cyhoeddus a noddir gan, neu sy'n gysylltiedig â'r Cynulliad, gan gynnwys cyrff y GIG yng Nghymru. Hefyd, mae ganddo'r hawl statudol i wneud adroddiad ar gynildeb, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y cyrff hynny ac i wella'u defnydd o adnoddau wrth gyflawni'u dyletswyddau.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn penodi archwilwyr i gyrff llywodraeth leol yng Nghymru, yn cynnal a hyrwyddo astudiaethau gwerth am arian yn y sector llywodraeth leol ac yn archwilio cydymffurfiaeth â gofynion gwerth gorau dan Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella. Fodd bynnag, er mwyn diogelu safle cyfansoddiadol llywodraeth leol, nid yw'n adrodd yn ôl yn benodol i'r Cynulliad ar y gwaith llywodraeth leol hwn.

Yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff gyda'i gilydd yw Swyddfa Archwilio Cymru. Am fwy o wybodaeth am Swyddfa Archwilio Cymru, byddwch cystal ag ysgrifennu at yr Archwilydd Cyffredinol yn y cyfeiriad uchod, ffôn 029 2026 0260, e-bost: wales@wao.gov.uk, neu ymwelwch â'r wefan http://www.wao.gov.uk

AGW General Report 2005 Welsh2.qxp 23/6/05 4:01 pm Page 3

# Adroddiad a gyflwynwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Cynulliad Cenedlaethol ar 30 June 2005



# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| | **Crynodeb** | **6** |
| **1** | **Cyflwyniad** | |
| | Fy rôl fel Archwilydd Cyffredinol ar gyfer Cymru | 7 |
| | Sut y cynhelir fy ngwaith | 8 |
| | Sut rwyf yn adrodd ar gasgliadau fy ngwaith archwilio | 8 |
| | Canlyniadau archwiliadau 2003/2004 | 8 |
| **2** | **Fy nghanfyddiadau** | |
| | Canfyddiadau a gododd o waith archwilio 2003/2004 | 10 |
| | Gweithredu rheolwyr yng nghyswllt argymhellion blynyddoedd blaenorol | 12 |
| | Llywodraethu corfforaethol | 13 |
| | Perfformiad talu | 14 |
| | Rheolaeth ariannol ar sail adnoddau | 15 |
| | Cyfrifon Llywodraeth Gyfan Cymru | 16 |

AGW General Report 2005 Welsh2.qxp 23/6/05 4:01 pm Page 5

## 3 Ychwanegu gwerth


| | |
|---|---|
| Cynllunio rheoli asedau | 18 |
| Gweithio gydag archwilwyr eraill | 19 |
| Cyngor i gyfran-ddeiliaid eraill | 20 |
| Archwiliad i gwymp asiantaeth fenter | 21 |
| Rhannu arbenigedd a gwybodaeth | 22 |


## 4 Datblygiadau ers yr Adroddiad Cyffredinol diwethaf


| | |
|---|---|
| Menter Gaffael Cymru | 23 |
| Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd | 26 |


## 5 Edrych Ymlaen


| | |
|---|---|
| Swyddfa Archwilio Cymru | 28 |
| Diwygio'r sector gyhoeddus yng Nghymru | 28 |
| Casgliad | 29 |


## Atodiadau


| | |
|---|---|
| Atodiad 1: Rhestr o adroddiadau Gwerth am Arian a gyhoeddwyd yn 2003/2004 | 30 |
| Atodiad 2: Cyfrifon a gynhwysir yn yr adroddiad hwn | 31 |
| **Nodiadau** | 33 |



# Crynodeb

Rwyf yn falch iawn o gyflwyno fy Archwiliad Cyffredinol cyntaf ers dod yn Archwilydd Cyffredinol ar gyfer Cymru ar 1 Ebrill 2005. Mae'r adroddiad hwn yn adeiladu ar waith fy rhagflaenydd o fri sef Syr John Bourn. Mae'n crynhoi canlyniadau gwaith archwilio ariannol yng nghyswllt cyfrifon 2003/2004 Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'i gyrff cysylltiedig a gwaith arall a wnaethpwyd yn y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2005 gan gynnwys gwaith sy'n deillio o ohebiaeth gydag Aelodau Cynulliad a'r cyhoedd, ac archwiliad prosiectau sy'n derbyn arian Ewropeaidd.

Mae'r gwaith archwilio ariannol hwnnw yn fy nalluogi i roi sicrwydd annibynnol fod y datganiadau ariannol blynyddol wedi eu paratoi'n gywir a bod incwm a gwariant wedi eu gosod ar gyfer y pwrpasau a fwriadwyd gan statudau perthnasol y Deyrnas Unedig.

Ar y cyfan, fy safbwynt i yw bod safonau rheolaeth a chywirdeb ariannol yn y sector dros lywodraeth ganol yng Nghymru yn uchel. Am yr ail flwyddyn, cafodd yr holl gyfrifon a archwiliwyd farn heb gymhwyso. Mae cynnydd da wedi ei wneud gan gyrff archwiliedig yn y modd y maent yn rheoli risg i gefnogi trefn lywodraethol effeithiol a gweithredu busnes cyhoeddus mewn modd priodol. Mae'r Adroddiad hefyd yn tanlinellu'r datblygiadau positif ym mhwrcasu sector gyhoeddus yng Nghymru sydd wedi ei arwain gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Ond nid oes, fodd bynnag, unrhyw le am hunan fodlonrwydd. Mae dogfen ymgynghori Llywodraeth Cynulliad Cymru, 'Creu'r Cysylltiadau: Gwell Gwasanaethau i Gymru' yn pwysleisio'r pwysigrwydd o lwyddo i gael gwerth am arian drwy ddarpariaeth ddyfeisgar o wasanaethau cyhoeddus effeithlon. Gan fod cyllideb bloc Cymru, sydd tua £12.7 biliwn ar hyn o bryd, yn parhau i dyfu, hefyd, felly, mae pwysigrwydd rheolaeth ariannol effeithiol gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a'i gyrff cysylltiedig. Yn ystod y misoedd sydd i ddod bydd y rhaglen o ddiwygio strwythurol ar draws sawl corff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad a phrosiect 'Cau Ynghynt' y Trysorlys i wella prydlondeb cyhoeddi cyfrifon sector gyhoeddus, hefyd yn gosod gofynion ychwanegol ar staff y sector llywodraeth ganol yng Nghymru.


Yn y cyd-destun hwn, gall y sector llywodraeth ganol yng Nghymru wneud gwell defnydd o wybodaeth cyfrifyddu er mwyn helpu i reoli ei materion ac wrth baratoi cyfrifon diwedd y flwyddyn yn gyflym a chywir. Mae cyrff archwiliedig hefyd angen gwneud mwy i gryfhau eu rheolaeth ariannol o brosiectau sydd wedi'u hariannu gan Ewrop.


Ers cyhoeddi'r Adroddiad Cyffredinol diwethaf, mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 wedi gosod Archwilydd Cyffredinol ar gyfer Cymru fel pennaeth y Swyddfa Archwilio Cymru sydd newydd ei chreu. Yn awr mae corff sengl yn archwilio gwariant sector gyhoeddus yng Nghymru ac mae fy mhwerau i ddilyn y bunt gyhoeddus wedi eu cynyddu'n fawr.

Mae Cymru mewn sefyllfa ddelfrydol i ddatblygu system archwilio gyhoeddus o'r radd flaenaf. Rwyf yn edrych ymlaen at weithio gyda chyrff cyhoeddus ar draws Cymru i sicrhau gwelliannau yn nhrosglwyddiad gwasanaethau cyhoeddus a rhoi sicrwydd annibynnol ar wariant cyhoeddus i'r Cynulliad Cenedlaethol a phobl Cymru.

**Jeremy Colman**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**30 Mehefin 2005**

AGW General Report 2005 Welsh2.qxp 23/6/05 4:01 pm Page 7





# Rhan 1: Cyflwyniad

1.1 Mae'r adroddiad hwn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn crynhoi canlyniadau archwiliad ac ardystiad fy rhagflaenydd o gyfrifon 2003/2004, ardystiodd yr olaf ar 11eg Mawrth 2005. Mae'r adroddiad hefyd yn crynhoi canlyniadau gwaith archwilio ariannol arall sydd wedi ei wneud gan staff Swyddfa Archwilio Cenedlaethol Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer Cymru yn ystod blwyddyn ariannol 2004/2005.

1.2 Nid yw'r adroddiad hwn yn ymdrin yn fanwl â gwaith archwilio gwerth am arian (VFM) Swyddfa Archwilio Cenedlaethol Cymru, a gefnogodd cynhyrchu adroddiadau VFM cyhoeddedig gan yr Archwilydd Cyffredinol. Yn ystod 2003/2004 cyhoeddodd Syr John chwe adroddiad VFM, a restrir yn Atodiad A yr adroddiad hwn ac sydd ar gael ar y rhyngrwyd ar www.wao.gov.uk. Mae'r adroddiadau hyn yn cael eu hystyried ar wahân gan Bwyllgor Archwilio'r Cynulliad ac mae cofnodion o gyfarfodydd y Pwyllgor ar gael ar wefan y Cynulliad ar www.wales.gov.uk.

## Fy rôl fel Archwilydd Cyffredinol ar gyfer Cymru

***Fel Archwilydd Cyffredinol ar gyfer Cymru, a phennaeth y Swyddfa Archwilio Cymru newydd, mae gennyf gyfrifoldeb am archwilio ar draws y sector gyhoeddus gyfan yng Nghymru***

1.3 Mae'n ofynnol arnaf drwy statud archwilio ac ardystio cyfrifon blynyddol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ei gyrff cyhoeddus a noddir ganddo a chyrff cyhoeddus penodol eraill, ac i adrodd fy safbwyntiau archwilio i'r Cynulliad.

1.4 Yn yr un modd ag archwilwyr sector breifat, rwyf yn cynnal fy archwiliadau ariannol yn unol â'r Safonau Archwilio a gyhoeddwyd, neu eu mabwysiadu, gan y Bwrdd Ymarferion Archwilio.

1.5 Rwyf yn dylunio fy astudiaethau archwilio i foddhau fy hun, ym mhob agwedd faterol, fod yr arian sydd wedi ei ddarparu i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru wedi ei ddefnyddio ar gyfer y pwrpasau a fwriadwyd yn unig - 'cysondeb'. Rwyf hefyd yn ystyried priodoldeb y modd mae cyllid cyhoeddus wedi ei drin a'r modd y mae busnes cyhoeddus wedi cael ei weithredu.

1.6 Mae archwilwyr yn rhoi cyngor i staff clientau ym mhob rhan o'r archwiliad. Fodd bynnag, mae materion rheolaeth ariannol sylweddol yn cael eu codi'n ffurfiol ar ddiwedd yr archwiliad ar ffurf llythyr rheolaeth a gyfeirir at Swyddog Cyfrifyddu'r client. Mae rheolaeth ariannol yn golygu'r ystod o reoliadau rheolaeth a gweithdrefnol sy'n hyrwyddo cyfrifo cywir a stiwardiaeth o arian cyhoeddus ac sy'n rhwystro neu'n canfod toriadau o briodoldeb neu gysondeb. Mae fy staff yn gwneud ymdrech i gynhyrchu argymhellion ymarferol i roi cymorth i Swyddogion Cyfrifyddu wrth gyflawni eu cyfrifoldebau heb greu biwrocratiaeth ddiangen.

**1.7** Ar gais Swyddog Cyfrifyddu'r Cynulliad, rwyf hefyd yn ymgymryd ag adolygiadau sicrhau ychwanegol mewn cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad. Mae'r adolygiadau hyn yn darparu sicrwydd i reolwyr cyrff archwiliedig a swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n fwy na'r archwiliad allanol safonol o'r cyfrifon blynyddol. Mewn llawer o achosion, gall y gwaith yma ychwanegu gwerth drwy awgrymu gwelliannau i systemau, dulliau rheoli a gweithdrefnau gweithredu.

## Sut y cynhelir fy ngwaith

***Am y cyfnod sydd wedi ei gynnwys yn yr adroddiad hwn, mae Swyddfa Archwilio Cenedlaethol Cymru, o dan gyfarwyddyd Archwilydd Cyffredinol ar gyfer Cymru, wedi cynnal y gwaith archwilio ariannol manwl angenrheidiol i gyflawni ei ddyletswyddau a chyfrifoldebau statudol.***

**1.8** Yn 2003/2004, archwiliodd Swyddfa Archwilio Cenedlaethol Cymru 32 o gyfrifon a baratowyd gan y Cynulliad a'i gyrff noddedig, a oedd yn adrodd ar y rhaglenni gwario a gyllidir gan gyllideb bloc Cymru o tua £11.3 biliwn. Mae **Ffigwr 1** yn dangos yr amrywiaeth a'r niferoedd o gyfrifon a archwiliwyd yn 2003/2004 (mae rhestr lawn yn Atodiad B i'r Adroddiad hwn).

## Sut rwyf yn adrodd ar gasgliadau fy ngwaith archwilio

**1.9** Rwyf yn adrodd ar ganlyniadau fy archwilio ariannol drwy:


- dystysgrifau archwilio ar y datganiadau ariannol;
- adroddiadau ar gyfrifon wedi'u cyhoeddi; a
- adroddiadau heb eu cyhoeddi at reolwyr ein clientau.

## Canlyniadau archwiliadau 2003/2004


***Derbyniodd pob un o gyfrifon 2003/2004 a ardystiwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer Cymru farn heb gymhwyso.***

**1.10** Rhoddodd Syr John farn heb gymhwyso i'r holl gyfrifon Cymreig a ardystiodd ym mlwyddyn ariannol 2003/2004. Hefyd cyhoeddodd adroddiad sylweddol ynghylch Iechyd Ariannol y GIG yng Nghymru, ar 31 Mawrth 2005[2].

**1.11** O dan ddarpariaethau'r Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, roedd y gwaith a wnaethpwyd yn flaenorol gan Swyddfa Archwilio Cenedlaethol Cymru a'r Comisiwn Archwilio yng Nghymru yn awr yn cael ei wneud gan Swyddfa Archwilio Cymru. Rwyf yn adrodd ymhellach ynghylch creu swyddfa archwilio unedig ar gyfer Cymru yn Rhan five yr adroddiad hwn.




**Ffigwr 1: Y 32 cyfrif a archwiliwyd gan Archwilydd Cyffredinol ar gyfer Cymru, 2003/2004**




* Four of these bodies also have charitable status

*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru*



# Rhan 2: Fy nghanfyddiadau

***Yn y rhan hon o'm hadroddiad, rwyf yn disgrifio'r prif ganfyddiadau a'r materion a gododd o'm gwaith ar gyfrifon 2003/2004.***

## Canfyddiadau a gododd o Waith Archwilio 2003/2004

**2.1** Yn gyffredinol, mae safonau rheolaeth ariannol mewn cyrff clientau llywodraeth ganol drwy Gymru yn parhau i fod yn dda. Rwyf wedi cyfeirio eisoes at farnau archwilio heb gymhwyso fy rhagflaenydd ar yr holl gyfrifon Cymreig a ardystiodd ym mlwyddyn ariannol 2003/2004. Rwyf hefyd yn croesawu'r cynnydd a wnaethpwyd gan gyrff archwiliedig wrth ddatblygu menter y Trysorlys ar reolaeth risg a'r gwelliannau mewn nifer o feysydd o reolaeth ariannol sy'n cael eu hadrodd isod, er enghraifft wrth roi sylw i argymhellion archwiliad ac yn y safonau perfformiad talu a gyflawnwyd.

**2.2** Bydd y gofynion i baratoi cyfrifon ynghynt a ddisgrifiwyd ym mharagraffau 2.40 a 2.41, fodd bynnag, yn cyflwyno heriau ychwanegol i gyrff archwiliedig. Bydd yn bwysig rhoi hyfforddiant digonol i'r holl staff perthnasol a bod cyrff yn gwneud defnydd llawn o'u systemau ariannol cyfrifiadurol i gryfhau rheolaeth ariannol ymhellach ble fo angen.

### Argymhellion a wnaethpwyd i reolwyr

**2.3** Roedd fy staff yn gallu crybwyll rhychwant eang o arsylwadau gyda chyrff archwiliedig yn ei llythyrau rheolaeth ac adroddiadau sicrwydd ychwanegol.

**2.4** Mae **Ffigwr 2** yn darparu dadansoddiad drwy'r prif gategorïau o argymhellion a wnaethpwyd.


**2.5** Rwyf yn darparu mwy o fanylder ynghylch cyngor a roddwyd yn ystod 2004/2005 gan Swyddfa Archwilio Cenedlaethol Cymru ynghylch rheolaeth ariannol ac ymarferion caffaeliad ym mharagraffau 2.26 - 2.32 a Rhan 4a o'r adroddiad hwn yn ôl eu trefn. Yn y paragraffau dilynol rwyf yn adrodd ar un thema arall – paratoad a chyflwyniad cyfrifon ar gyfer archwiliad – ac yn darparu diweddariad ynghylch faint yn union o weithredu sydd wedi ei wneud gan reolwyr yn achos yr argymhellion y mae Archwilydd Cyffredinol ar gyfer Cymru wedi eu gwneud mewn blynyddoedd blaenorol.

### Paratoad a chyflwyniad cyfrifon ar gyfer archwiliad


**2.6** Fel rhan o'i phroses gynllunio, mae fy staff yn cytuno gyda phob un o'm cyrff clientau ar amserlen o ddyddiadau allweddol ar gyfer paratoi cyfrifon ac archwiliad. Mae'r ddisgyblaeth yma'n sicrhau fod y cyfrifon yn cael eu paratoi, eu harchwilio a'u hardystio o fewn terfynau amser statudol ond hefyd yn rhoi cymorth i'r ddwy garfan sy'n rhan o'r broses archwilio wrth gynllunio adnoddau.

***Bu gwelliant mewn cyflenwi cyfrifon ar gyfer eu harchwilio mewn da bryd, ond mae problemau yn dal i fodoli.***

AGW General Report 2005 Welsh2.qxp 23/6/05 4:01 pm Page 11



**Ffigwr 2: Angen gwneud gwelliannau yn achos ansawdd cyfrifon sy'n cael eu cyflwyno am archwiliad**




*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cenedlaethol Cymru- dadansoddiad o argymhellion i gyrff clientau, 2003/200*

**2.7** O'r tri deg a dau o gyfrifon ar gyfer 2003/2004, ni chyflwynwyd tri ohonynt ar gyfer archwiliad erbyn y dyddiad a gytunwyd arno gan y rheolwyr client a fy staff. Mae hyn yn welliant ar y perfformiad a gafwyd yn 2002/2003, pan fethodd chwech o gyrff client gyflwyno eu cyfrifon erbyn y dyddiadau a gytunwyd arnynt.

**2.8** Mae'n rhaid i'r holl gyfrifon gael eu harwyddo gan y Swyddog Cyfrifyddu perthnasol a'u cyflwyno'n ffurfiol i'r Archwilydd Cyffredinol ar gyfer Cymru, ac mae'r cyflwyniad hwn yn digwydd fel arfer unwaith mae'r holl waith archwilio manwl wedi ei gwblhau. Methodd un o'r tri chyfrif a gyflwynwyd yn hwyr ar gyfer archwiliad - y cyfrifon adnoddau cyfunol a baratowyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, fel yn 2002/2003, i gwrdd â'r terfyn amser statudol ar gyfer ei arwyddo gan y Swyddog Cyfrifyddu. Rwyf yn adrodd ymhellach ym mharagraffau 2.38 a 2.39 am y rheswm dros yr oediad i gyflwyno'r cyfrif yma.

**2.9** Methodd dau gyfrif arall yn 2003/2004 eu terfyn amser statudol ar gyfer eu harwyddo, er gwaethaf cael eu cyflwyno ar gyfer archwiliad yn unol â'r amserlen a gytunwyd arni: cyfrifon yr Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru a chyfrifon y Comisiynydd Gwasanaeth Iechyd ar gyfer Cymru. Mae'n ofynnol ar i'r cyrff yma gyflwyno cyfrifon wedi'i harwyddo i Archwilydd Cyffredinol ar gyfer Cymru o fewn wyth mis i ddiwedd y flwyddyn ariannol. Cyflwynwyd y cyfrifon am 2003/2004 ar 24 Rhagfyr 2004, dau ddeg a phedwar o ddyddiau ar ôl y terfyn amser statudol.

**2.10** Mae'n ofynnol ar i'r Archwilydd Cyffredinol ardystio cyfrifon Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru a'r Comisiynydd Gwasanaeth Iechyd ar gyfer Cymru a'u gosod o flaen y Cynulliad o fewn pedwar mis o'u derbyn. Ardystiodd yr Archwilydd Cyffredinol gyfrifon 2003/2004 ar 27 Ionawr 2005 ond ni allodd eu gosod gerbron tan 31 Mawrth 2005 gan fod swyddfa'r Ombwdsmon, sy'n gweinyddu'r ddau gyfrif, wedi methu cyflenwi copïau cywir o'r cyfrifon mewn fformat electronig fel sy'n ofynnol gan y Swyddfa Bwrdd y Cynulliad.

**2.11** Cefais wybod gan swyddfa'r Ombwdsmon fod y cyfrifon yn cael eu paratoi gan Swyddfa'r Ombwdsmon Seneddol ac Iechyd (OPHSO) o dan gytundeb lefel gwasanaeth. Roedd yr oedi mewn cwblhau'r ddau gyfrif ar gyfer eu harwyddo wedi codi oherwydd bod eu paratoad wedi ei flaenoriaethu'n is na chyfrifon yr OPHSO ei hun. Roedd hyn oherwydd nad oedd pobl wedi sylweddoli ar y dechrau bwysigrwydd y terfyn amser 30 Tachwedd. Roedd yr oedi mewn gosod y cyfrifon wedi codi oherwydd anawsterau technegol wrth drosi'r fformat electronig yr oedd y cyfrifon wedi eu cyflenwi gan yr OPHSO i'r fformat electronig gwahanol oedd ei hangen gan Swyddfa Bwrdd y Cynulliad.

**2.12** Canfu Swyddfa Archwilio Cenedlaethol Cymru nad oedd yr holl gyfrifon a gyflwynwyd gyntaf am archwiliad yn 2003/2004 yn gyflawn ac/neu'n cydymffurfio'n llawn gyda gofynion adrodd. Yn seiliedig ar eu canfyddiadau, rwyf wedi dynodi tri maes eang ble y gall cyrff clientau weithredu i wella ymhellach eu cyfrifon sy'n cael eu cyflwyno ar gyfer archwilio:

- gwella ansawdd y ddogfennaeth a gyflwynir mewn cefnogaeth o ffigyrau cyfrif i sicrhau cyflawnrwydd a chysondeb y dull o adrodd;
- cryfhau prosesau ar gyfer y deilliant o ffigyrau cyfrif mantolen, megis credydwyr, dyledwyr ac asedau sefydlog; ac
- cryfhau'r rheolaeth a gweithdrefnau dros baratoad cyfrifon, yn sicrhau, er enghraifft, fod yr holl adroddiadau mewnol angenrheidiol a datganiadau'n cael eu derbyn ar sail amserol, a bod gwiriadau yn eu lle i sicrhau cydymffurfiad gyda safonau cyfrifyddu a chyfarwyddyd Trysorlys.

**2.13** Bydd y canfyddiadau uchod yn dod yn fwy perthnasol fyth gyda'r angen i gyrff archwiliedig ddod â pharatoad eu cyfrifon blynyddol ymlaen (paragraff 2.40). Mae'n bwysig nad yw'r pwysau sy'n rhan o baratoi cyfrifon yn gyflymach achosi gostyngiad yn ansawdd y cyfrifon hynny.

## Gweithredu rheolwyr yng nghyswllt argymhellion blynyddoedd blaenorol


***Bu gostyngiad sylweddol yn nifer yr argymhellion na ddatryswyd o Lythyrau Rheolaeth blaenorol.***

**2.14** Yn ei Adroddiad 2003, aeth Syr John ati i adolygu pa mor bell yr oedd rheolwyr yn gweithredu'r argymhellion yr oedd wedi ei gwneud mewn blynyddoedd blaenorol. Dangosodd yr Adroddiad Cyffredinol 2004 fod tri ar ddeg o gyrff gyda gweithredoedd heb eto eu cyflawni ar argymhellion a godwyd ynghylch eu cyfrifon 2001/2002.

**2.15** Yn ei Adroddiad Pwyllgor, Adroddiad Cyffredinol Archwilydd Cyffredinol ar gyfer Cymru 2004[3], archwiliodd Pwyllgor Archwilio Cynulliad Cenedlaethol Cymru'r canfyddiadau hynny. Argymhellodd y Pwyllgor Archwilio y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru weithredu i bwysleisio i'w chyrff noddedig y pwysigrwydd o weithredu'n gyflym ar argymhellion archwilio y cytunwyd arnynt. Dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol wrth staff Swyddfa Archwilio Cenedlaethol Cymru am barhau i fonitro statws argymhellion blaenorol yn llythyr rheolaeth 2003/2004.

**2.16** Rwyf yn falch o gydnabod y gweithredu sydd wedi ei wneud gan Swyddog Cyfrifyddu'r Cynulliad yn y maes yma a gallaf adrodd gwelliant sylweddol: mae dau o bob tri o gyrff wedi gweithredu ers hynny ar argymhellion ynghylch eu cyfrifon 2001/2002. Nodaf hefyd fod y rhan fwyaf o'r achosion sy'n weddill o argymhellion sydd heb eu datrys, fod peth

AGW General Report 2005 Welsh2.qxp 23/6/05 4:01 pm Page 13



gweithredu wedi ei wneud i roi sylw iddynt. Yn achos yr argymhellion a godwyd ynghylch cyfrifon 2002/2003 canfûm fod tri chorff archwiliedig yn parhau i fod â gweithredoedd i'w cyflawni.

**2.17** Rwyf yn disgwyl i uwch reolwyr cyrff clientau archwiliedig adeiladu ar y cynnydd sy'n cael ei wneud, er mwyn sicrhau fod fy argymhellion yn cael eu gweithredu'n brydlon. Rwyf hefyd yn croesawu'r gweithredu gan bwyllgorau archwilio'r cyrff i fonitro'r cynnydd sy'n cael ei gyflawni yn y maes yma.

## Llywodraethu Corfforaethol

***Mae'r holl gyrff wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth ddatblygu eu systemau rheoli risg.***

**2.18** Mewn adroddiadau blaenorol, mae'r Archwilydd Cyffredinol ar gyfer Cymru wedi adrodd ar sut mae ei staff wedi gweithio gyda chyrff archwiliedig er mwyn sicrhau fod gofynion Canllawiau'r Trysorlys yn achos Llywodraethu Corfforaethol yn cael eu cwrdd. Un o'r prif ofynion yw ar i bob sefydliad ddatblygu system gydlynol ar gyfer adnabod ac asesu ei risgiau corfforaethol a strategol allweddol, ac i fewnosod gweithdrefnau rheoli risg cadarn o fewn ei gweithrediadau dydd i ddydd.

**2.19** Mae canlyniadau gwaith Swyddfa Archwilio Cenedlaethol Cymru wrth adolygu prosesau rheoli risg cyrff archwiliedig ar gyfer 2003/2004 yn dangos fod pob un wedi gwneud cynnydd da yn y maes. Fodd bynnag, canfu'r archwilwyr na allai pedwar corff, yng nghyfnod yr archwiliad, adrodd fod cydymffurfio llawn wedi digwydd yng nghyswllt gofynion penodol y Trysorlys. I ddau o'r cyrff hyn, roeddynt yn gweithredu am y tro cyntaf yn 2003/2004 ac felly roedd yn ddealladwy fod gweithdrefnau a phrosesau rheoli risg wedi eu sefydlu yn ystod y flwyddyn ariannol. I'r ddau gorff arall, tra bod eu Swyddogion Cyfrifyddu'n gallu adrodd fod systemau yn eu lle erbyn diwedd y flwyddyn, nid oeddynt wedi bod yn weithredol am y flwyddyn ariannol gyfan.

**2.20** Canfu Swyddfa Archwilio Cenedlaethol Cymru fod cofrestrau risg yn cael eu diweddaru yn rheolaidd gan gyrff archwiliedig ac yn cael eu hadolygu gan eu pwyllgorau archwilio. Fodd bynnag, mae angen gwaith pellach i sicrhau fod y trefniadau ar gyfer rheoli risg wedi eu mewnosod yn gadarn i weithredoedd dydd i ddydd y cyrff. Bydd hyn yn cynnwys, er enghraifft, sicrhau fod yr holl staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau i reoli risg; cysylltu rheolaeth o risgiau gyda chynlluniau busnes a gweithredu'r corff; a sefydlu mecanweithiau cadarn ar gyfer rheoli risgiau mewn perthynas â phrosiectau unigol allweddol.

**2.21** Bydd gweithredu'r diwygiadau arfaethedig yn llwyddiannus i'r sector gyhoeddus Gymreig, y byddaf yn gwneud sylwadau llawnach arnynt yn Rhan 5 yr adroddiad hwn, hefyd yn dibynnu ar i'r cyrff dan sylw allu rheoli'n llwyddiannus y risgiau yn ogystal â'r cyfleoedd y bydd y newidiadau strwythurol sylweddol yn eu cyflwyno. Yn y dyfodol agos bydd hyn yn cynnwys yr angen i sicrhau cysondeb gwasanaeth yn ystod y cyfnod trawsnewid cyn i'r diwygiadau fod yn eu lle yn llawn.

# Perfformiad talu

***Mae'r nifer o gyrff sy'n cyflawni'r safon perfformiad wedi cynyddu dros y tair blynedd ddiwethaf.***

**2.22** Mae'r fframwaith reoliadol ar gyfer nifer o'r cyfrifon yr wyf yn eu harchwilio angen dadlennu'r ganran o'r holl daliadau credydwyr sy'n cael eu gwneud o fewn cyfnod 30-diwrnod penodol. Mae'r angen hwn yn deillio o'r Ddeddf Taliadau Hwyr Dyledion Masnachol (Llog) 1998, sy'n atgyfnerthu termau Côd Ymarfer Talu Gwell Llywodraeth y DU. Mae'r Ddeddf hefyd yn galluogi cyflenwyr i hawlio llog statudol o'r sector gyhoeddus os yw anfonebau dilys yn cael eu talu'n hwyr.


**2.23** O'r 32 o gyfrifon Cymreig am 2003/2004 y gwnaeth fy rhagflaenydd eu hardystio, roedd gofyn i 26 ddadlennu perfformiad talu'r corff client. Mae'r 26 cyfrif yn cynnwys crynodeb o gyfrifon Byrddau Iechyd Lleol yng Nghymru a'r Ymddiriedolaethau GIG Cymreig sy'n dadlennu perfformiad talu cyffredinol a gyflawnwyd gan y cyrff hynny. Mae dadansoddiad o berfformiad cyrff archwiliedig yn cadarnhau gwelliant parhaus yn achos y rheiny sy'n gwneud o leiaf 95 y cant o daliadau o fewn y cyfnod 30 diwrnod, fel y dangosir yn **Ffigwr 3**.

**2.24** Dangosodd adolygiad manwl o gyfrifon 2002/2003 a 2003/2004 fod:

- 17 (neu 65 y cant) wedi cwrdd â'r lefel perfformiad 95 y cant yn 2003/2004. Mae hyn yn cymharu â 14 (neu 56 y cant) yn 2002/2003;
- 9, yn cynnwys y 2 gyfrif iechyd cryno, heb gwrdd y lefel perfformiad 95 y cant yn 2003/2004. O'r rhain, datgelodd 7 berfformiad talu cymharol a oedd yn dangos eu bod wedi methu cwrdd â'r safon ofynnol yn 2002/2003; a
- 15 o'r 26 wedi gwella eu perfformiad dros y ddwy flynedd. Fodd bynnag, nid oedd 4 o'r rhain wedi gwella digon i gwrdd â'r lefel perfformiad 95 y cant.


**2.25** Rwyf yn falch o adrodd fod gwelliannau wedi eu gwneud ond rwyf yn edrych at reolwyr y cyrff hynny sy'n parhau i fethu cyrraedd y targed i weithredu i roi sylw i'r achosion. Mae hyn yn hynod o bwysig o ystyried effeithiau posib oedi mewn talu ar lif arian busnesau bach.

**Ffigwr 3: Perfformiad talu cyrff clientau yn gwella dros y cyfnod tair blynedd, 2001/2002 – 2003/2004**




*NB: Mae'r tabl yn dangos y ganran o gyrff clientau a chyfrifon sy'n gwneud 95 y cant neu fwy o'u taliadau credydwyr o fewn 30 diwrnod o dderbyn anfoneb ddilys.*

*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cenedlaethol Cymru' dadansoddiad o gyrff clientau' perfformiad talu a adroddwyd, 2003/2004*



## Rheolaeth ariannol ar sail adnoddau

**2.26** Cynlluniwyd rheolaeth ariannol ar sail adnoddau i uno'r broses adrodd a chyllidebu ar sail croniadau yn hytrach nag arian. Mae hyn yn golygu fod gweithrediadau masnachol a digwyddiadau eraill i'w hadlewyrchu, cyn belled ag sy'n bosib, yn y datganiadau ariannol ar gyfer y cyfnod cyfrifo y maent yn digwydd, ac nid yn y cyfnod pan fo'r arian yn cael ei dderbyn neu ei dalu. Mae datganiadau ariannol sy'n cael eu paratoi ar sail croniadau felly'n darparu cofnod mwy cynhwysfawr o'r adnoddau sydd wedi eu defnyddio.

**2.27** Mae cyhoeddiad y Fforwm Archwilio Cyhoeddus, "The Whole Truth: Or Why Accruals Accounting Means Better Management", yn trafod y buddiannau sy'n deillio i uwch reolwyr pan fo gwybodaeth rheolaeth yn cael ei pharatoi ar sail adnoddau, yn cynnwys:

- fod gwybodaeth ar sail croniadau yn darparu darlun mwy cyflawn na gwybodaeth ar sail arian. Gellir cymharu'r holl gostau a dyledion y mae corff yn eu cael gyda'r holl incwm ac asedau a enillwyd gan y corff;
- mae cynhyrchiad gwybodaeth ariannol a rheolaeth gyflawn a chywir yn gallu helpu wrth gynllunio a dyrannu adnoddau;
- mae cyfrifyddu croniadau yn nodwedd hanfodol o system rheoli perfformiad effeithiol gan ei bod yn galluogi mesuriadau neu ddangosyddion perfformiad i gael eu cyfrifo ar sail data ariannol a gweithredol cynhwysfawr a chyson; ac
- mae paratoad o'r cyfrifon blynyddol yn cael eu symleiddio'n fawr os ydynt yn cael eu cysylltu â chyfrifon rheolaeth chwarterol neu fisol wedi'u paratoi ar sail adnoddau.

**2.28** Yn ystod archwiliadau o gyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad eleni, mae staff Swyddfa Archwilio Cenedlaethol Cymru wedi asesu faint yn union y mae cyrff yn defnyddio gwybodaeth ar sail adnoddau o fewn eu gweithdrefnau rheolaeth ariannol arferol.

**2.29** Dangosodd y canfyddiadau ddarlun cymysg. Roedd dros hanner y cyrff a archwiliwyd yn dibynnu ar gyllidebau ar sail arian a gwybodaeth rheolwyr yn 2003/2004. Roedd hyn yn golygu eu bod angen defnyddio proses ar wahân i lunio eu cyfrifon blynyddol, sydd angen eu paratoi ar sail croniadau. Ond roedd nifer o gyrff eraill, fodd bynnag, yn defnyddio gwybodaeth a baratowyd ar sail croniadau drwy gydol y flwyddyn. Roedd y wybodaeth yma'n cael ei pharatoi ar sail fisol neu chwarterol ac, i raddau amrywiol, roedd y datganiadau ariannol blynyddol a chyfrifon rheolaeth fisol yn cael eu paratoi gyda'i gilydd gan yr un broses.

**2.30** Ble bo'r wybodaeth a ddefnyddir yn cael ei darparu gan fwyaf ar sail arian, gall gyfyngu'n arw ar werth y wybodaeth rheolaeth ariannol sydd ar gael i reolwyr. Gall hefyd wneud y broses o baratoi cyfrifon diwedd blwyddyn yn fwy maith o ran amser a golygu nad yw cyrff yn dod yn ymwybodol o'u sefyllfa alldro blynyddol yn nhermau incwm a gwariant hyd nes eu bod yn paratoi eu cyfrifon blynyddol. Mae hyn yn ei gwneud yn fwy anodd, er enghraifft, i ragweld yn ddigonol, ac i weithredu'n brydlon, i ymdrin â diffygion ariannol potensial ar ddiwedd y flwyddyn.

**2.31** Tra bo math a maint y wybodaeth rheolaeth ariannol a ddefnyddir angen bod yn gymesur â gofynion busnes y cyrff, mae'n hanfodol fod yr holl gyrff cyhoeddus yn sicrhau nad yw buddiannau posib yn cael eu colli yn y maes. Rhaid i systemau ariannol felly adlewyrchu'n well ofynion y dyfodol ynghylch darpariaeth gynt o gyfrifon blynyddol (paragraffau 2.40-2.41) a'r rôl allweddol y dylai rheolaeth ariannol ei chwarae wrth gyflenwi rhaglenni'n effeithlon.

**2.32** Bydd y diwygiad sydd ar ddod o nifer o gyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad yn darparu cyfle defnyddiol i'r cyrff penodol hyn, drwy gydweithio gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru, gymryd stoc o'u hanghenion system busnes. Bydd fy staff yn parhau i roi cyngor i'r cyrff hynny sy'n dymuno ymestyn neu weithredu ymarfer da yn eu defnydd o wybodaeth ar sail croniadau.

## Cyfrifon Llywodraeth Gyfan Cymru

**2.33** Mae gan brosiect 'Cyfrifon Llywodraeth Gyfan' y Trysorlys fwriad o gynhyrchu set o gyfrifon cyfunol arddull masnachol ar gyfer y sector gyhoeddus gyfan yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Trysorlys yn cyflwyno'r Cyfrifon Llywodraeth Gyfan mewn dau gyfnod:

(i) Darpariaeth 'Cyfrif Llywodraeth Ganol' (CGA), yn cynnwys canlyniadau ariannol adrannau'r llywodraeth, cronfeydd canolog, y gweinyddiaethau datganoledig, a chyrff cyhoeddus anadrannol (yng Nghymru, cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad); a

(ii) Darpariaeth 'Cyfrif Llywodraeth Gyfan' (WGA), yn cynnwys hefyd canlyniadau ariannol cronfeydd masnachu, corfforaethau cyhoeddus, awdurdodau lleol ac Ymddiriedolaethau GIG.

**2.34** Mae **Ffigwr 4** yn crynhoi cynigion y Trysorlys ar gyfer paratoi Cyfrifon Llywodraeth Ganol a Llywodraeth Gyfan. Cyfrif Llywodraeth Ganol 2003/2004 fydd y cyntaf i gael ei baratoi ar sail "wedi'i gyhoeddi" yn hytrach nag "arbrawf". Bydd y Cyfrif Llywodraeth Gyfan yn cael ei gyflwyno ar sail arbrawf ar gyfer blwyddyn ariannol 2004/2005 ac ni fydd yn cael ei baratoi ar sail wedi'i gyhoeddi tan 2006/2007.

**Ffigwr 4: Cynigion Trysorlys EM ar gyfer paratoi Cyfrifon Llywodraeth Ganol a Llywodraeth Gyfan**


| | Blwyddyn Ariannol | Statws |
|---|---|---|
| Cyfrif Llywodraeth Ganol | 2003/2004 | I'w gyhoeddi |
| | 2004/2005 | I'w gyhoeddi |
| | 2005/2006 | I'w gyhoeddi |
| Cyfrif Llywodraeth Gyfan | 2004/2005 | Arbrawf a heb ei gyhoeddi |
| | 2005/2006 | Arbrawf a heb ei gyhoeddi |
| | 2006/2007 | I'w gyhoeddi |

*Ffynhonnell: Trysorlys EM*

**2.35** Yng Nghymru, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn paratoi Cyfrif Llywodraeth Gyfan Cymru o fewn graddfa amser datblygiad sy'n cydredeg â Chyfrifon Llywodraeth Ganol a'r Cyfrifon Llywodraeth Gyfan. Cynhyrchodd Llywodraeth Cynulliad Cymru Gyfrif Llywodraeth Gyfan Cymru ar gyfer 2003/2004 yn Chwefror 2005 a oedd yn cynnwys canlyniadau ariannol y Cynulliad, ei asiantaethau gweithredol, cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad, byrddau iechyd lleol, Estyn a'r ddau gyfrif Coedwigaeth Gymreig. Bu i'r Cyfrif dderbyn cyfarwyddyd cyfrifon gan Drysorlys EM ar 24 Mai 2005 ac o ganlynaid gellir erbyn hyn ei archwilio a'i gyhoeddi. Bydd y nifer o gyrff cyhoeddus sydd wedi eu cynnwys o fewn y Cyfrif yn cynyddu yn y dyfodol yn unol ag amserlen y Trysorlys ar gyfer Cyfrifon Llywodraeth Gyfan.

**2.36** Mae Adran Gyllid Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydlynu'r broses baratoi cyfrifon

AGW General Report 2005 Welsh2.qxp 23/6/05 4:01 pm Page 17



CGA a WGA yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys paratoad o is-gyfuniad o ganlyniadau ariannol y Cynulliad ei hun ynghyd â rhai cyrff eraill sy’n rhan yng Nghymru, megis y cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad, i’w trosglwyddo ymlaen i’r Trysorlys.

**2.37** Ar gyfer ymarferiad paratoi Cyfrif Llywodraeth Ganol arbrofol 2003/2004 roedd gofyn i Adran Gyllid Llywodraeth Cynulliad Cymru gyflwyno ei hadroddiad is-gyfuniad i’r Trysorlys erbyn yr amser terfynol ar 3 Rhagfyr 2004. Cyflwynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei gwybodaeth ar 25 Ionawr 2005.

**2.38** Canlyniad yr oedi oedd mai’r Cynulliad, am yr ail flwyddyn yn olynol, oedd y corff olaf yn y DU i gyflwyno ei hadroddiad Cyfrifon Llywodraeth Ganol i’r Trysorlys. Achoswyd yr oedi mewn cyflwyno, fel yn y flwyddyn flaenorol, gan lithriad ym mharatoad cyfrif adnoddau cyfunol y Cynulliad ei hun. Roedd hyn, yn ei dro, yn ganlyniad i oedi wrth orffen yr is-gyfuniad o ganlyniadau ariannol y ddau ar hugain o Fyrddau Iechyd Lleol, a oedd yn darparu cyfrifon yng nghyswllt eu blwyddyn gyntaf weithredol, ac mewn fformat gyfrifyddu adnoddau newydd.

**2.39** Llwyddodd un ar hugain o'r Byrddau Iechyd Lleol i gyflwyno eu cyfrifon ar amser, ond bu oedi sylweddol mewn cynhyrchu un o'r cyfrifon. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi dweud wrthyf fod gweithredu wedi cychwyn i sicrhau y gellir osgoi'r un broblem eto yng nghyswllt cyfrifon 2004/2005.

***Mae amserlen y Trysorlys ar gyfer 2004/2005 yn cael ei dwyn ymlaen yn sylweddol.***

**2.40** Mae'n ofynnol i Lywodraeth Cynulliad Cymru gyflwyno ei hadroddiadau Cyfrifon Llywodraeth Ganol ar gyfer 2004/2005 i'r Trysorlys erbyn 21 Hydref 2005 a bydd y rhain yn cael eu harchwilio erbyn 25 Tachwedd 2005. Yn cydredeg yn gyfochrog â hyn, bydd menter "cau ynghynt" y Trysorlys yn ei gwneud yn ofynnol i adrannau'r llywodraeth o 2005/2006 fod wedi cael archwilio eu cyfrifon a'u gosod gerbron y Senedd erbyn gwyliau'r haf. Cytunodd Llywodraeth Cynulliad Cymru gyda'r Trysorlys ei hamserlen cau ynghynt, sy'n sicrhau y bydd ei darpariaeth cyfrifon yn cyd-fynd ag amserlen Cyfrifon Llywodraeth Ganol.

**2.41** Bydd y datblygiadau uchod yn gosod pwysau cynyddol ar y Cynulliad a chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru i ddarparu eu cyfrifon i amserlenni mwy caeth nag o'r blaen. Rwyf yn croesawu'r gwaith sy'n cael ei wneud gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i lunio cynllun prosiect sy'n ymwneud â'r broses darparu cyfrifon am flynyddoedd ariannol 2004/2005 a 2005/2006, yn cynnwys dyddiadau cerrig milltir allweddol. Bydd fy staff yn gweithio'n agos gyda'r Cynulliad a chyrff eraill i helpu sicrhau fod y dyddiadau targed ar gyfer darparu cyfrifon ac archwiliadau yn cael eu cwrdd. Bydd yn angenrheidiol, fodd bynnag, fel rhan o'r broses hon, fod gwelliannau i'r system yn cael eu rhoi'n eu lle i gynorthwyo mewn darparu cyfrifon y Cynulliad.



# Rhan 3: Ychwanegu gwerth

## *Mae Swyddfa Archwilio Cymru'n darparu ystod eang o gyngor i reolwyr clientau a chyfran ddeiliaid eraill*

**3.1** Rhan hanfodol fy rôl fel Archwilydd Cyffredinol ar gyfer Cymru yw helpu cyrff cyhoeddus eraill i gwrdd â'u hamcanion. Gwnaf hyn mewn ystod o ffyrdd, yn cynnwys eu helpu i adnabod a dysgu o ymarfer da. Drwy fy ngwaith, byddaf yn parhau i hybu gwelliannau yn safonau rheolaeth ariannol ar draws wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

**3.2** Gofynnir am gyngor fy staff gan reolwyr clientau ar hyd bob cam o'r cylch archwilio. Yn ogystal, gofynnir yn aml i mi ymgymryd â gwaith uwchlaw fy nyletswyddau statudol. Dengys y paragraffau canlynol enghreifftiau o'r math o gyngor a ddarparwyd i reolaeth clientau yn ystod 2004/2005 a sut yr oedd staff Swyddfa Archwilio Cenedlaethol Cymru yn ymateb yn bositif i'r ceisiadau am gymorth.

**3.3** Yn ystod y flwyddyn, hysbyswyd clientau ynghylch datblygiadau mewn anghenion cyfrifo, a rhoddwyd cyngor mwy penodol pan ofynnwyd amdano. Mae fy staff hefyd wedi ymateb i geisiadau gan nifer o gyrff archwilio am gyngor ar gylch gorchwyl i aelodau pwyllgorau archwilio ac mae uwch-swyddogion Swyddfa Archwilio Cenedlaethol Cymru staff wedi rhoddi cyflwyniadau i lawer o glientau ar, er enghraifft, lywodraeth gorfforaethol. rheoli risg a datblygiadau mewn archwilio cyhoeddus ac atebolrwydd.

**3.4** Cynhyrchwyd dogfennau canllaw yn gorfforaethol gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ac fe'u rhannwyd i'r holl gyrff clientau o fewn Cymru. Roedd canllawiau penodol ar gyfer 2005/2005 yn cynnwys: arweiniad ymarferol ar anghenion y Trysorlys yng nghyswllt 'Cau Ynghynt'; newidiadau i'r ystod o Ganllawiau Cyfrifo'r Trysorlys sy'n berthnasol i ddarparu cyfrif diwedd-blwyddyn; a rhybudd cynnar o effeithiau posib y Safonau Cyfrifo Rhyngwladol cydgordiol a fydd yn berthnasol i gyfrifon sector gyhoeddus yn y blynyddoedd i ddod.


**3.5** Cymorth pellach i ddarparu cyfrifon yw'r 'rhestr wirio datgeliadau' y mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn ei darparu ar ei gwefan i'w holl glientau. Pwrpas y rhestr wirio a'r rhesymeg dros ei gwneud ar gael yn eang yw cynorthwyo darparwyr cyfrifon, a'r staff client hyn hynny sydd â chyfrifoldeb dros adolygiad rheoli o gyfrifon drafft, i sicrhau eu bod yn diwallu'r holl anghenion cyfrifo a datgelu perthnasol.

## Cynllunio Rheoli Asedau

**3.6** Fel rhan o fenter Llywodraeth Cynulliad Cymru i wella cynllunio rheoli asedau yn y sector gyhoeddus yng Nghymru, gofynnodd i Swyddfa Archwilio Cenedlaethol Cymru ymgymryd ag adolygiad o drefniadau rheoli asedau o fewn Llywodraeth y Cynulliad a saith o'r cyrff y mae'n noddi. Roedd yr adolygiad hwn yn eithrio rheolaeth y rhwydwaith ffyrdd a stadau'r GIG gan eu bod wedi cael, neu eu bod wrthi'n cael, eu hasesu mewn astudiaeth gwerth-am-arian ar wahân. Ar gyfer yr wyth corff a astudiwyd, roedd Swyddfa Archwilio Cenedlaethol Cymru yn ystyried:

- faint oedd cynllunio rheoli asedau'n ffurfio rhan o'r trefniadau llywodraethu cyfan; a

AGW General Report 2005 Welsh2.qxp 23/6/05 4:01 pm Page 19



- natur ac ansawdd cyfan y wybodaeth a oedd yn rhan o gynlluniau rheoli asedau presennol.

**3.7** Daeth Swyddfa Archwilio Cenedlaethol Cymru i'r casgliad yn ei adroddiad i'r wyth corff fod:

- rheolaeth gyfan yr asedau a ddelir yn gadarn at ei gilydd ond fod peth lle i wella; a
- bod y cynlluniau rheoli asedau presennol yn gyfyngedig o ran sgôp a chynnwys, gyda lle sylweddol i wella.

**3.8** Darganfu'r archwilwyr hefyd fod sgôp i:

- gyflwyno systemau rheoli asedau cynhwysfawr ac integredig, fel sy'n briodol i bob corff, ac i wybodaeth asedau gael ei defnyddio'n well;
- gryfhau'r canllawiau sydd ar gael i gyrff a noddir gan y Cynulliad ar faterion cynllunio rheoli asedau, yng nghyd-destun mentrau a chyfrifoldebau rheolaeth gyhoeddus ehangach; a
- gwella cyfathrebu rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r cyrff a noddir ynghylch cynllunio asedau a rheoli asedau.

**3.9** Er mwyn helpu i ymdrin â'r meysydd hyn, mae Swyddfa Archwilio Cenedlaethol Cymru hefyd wedi adrodd ar weithrediadau allweddol y gallai Llywodraeth Cynulliad Cymru a'i chyrff a noddir eu cyflwyno i gryfhau eu trefniadau llywodraethu, systemau a gweithdrefnau rheolaethol. Cefais fy mhlesio o weld fod yr wyth corff wedi derbyn y darganfyddiadau yr adroddwyd arnynt a'u bod yn awyddus i wella, ble y bo'n briodol, eu harferion rheoli asedau.

# Gweithio gydag archwilwyr eraill

### Archwiliad Mewnol

**3.10** Mae llawer o fuddiannau mewn cael cydweithio agos rhwng archwilwyr mewnol ac allanol cyrff cyhoeddus. Mae'r rhain yn cynnwys rhannu gwybodaeth i hwyluso ffocysu effeithlon o adnoddau archwilio, lleihau i'r eithaf y risg o ddyblygu ymdrech, a lleihau'r baich archwilio cyfan ar gyrff a archwilir. Mae fy staff yn cydweithio'n agos ag archwilwyr mewn ôl yr holl gyrff yr wyf yn archwilio. Ac ar nifer o achlysuron yn 2004/2005 maent hefyd wedi cynnal asesiadau archwilio ar y cyd ar systemau rheoli cyrff clientau yng nghyswllt meysydd sylweddol o weithgaredd busnes. Gall y fath achlysuron o gydweithio ymarferol dalu ar ei ganfed yng nghyswllt cyfraniad 'gwerth ychwanegol' y swyddogaeth archwilio i weithgareddau'r client.

### Archwilwyr eraill

**3.11** O dan adran 98(4) o Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) 1977 mae'n ofynnol arnaf archwilio, tystio ac adrodd ar gyfrifon cryno'r GIG. Darperir y cyfrifon hyn gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o'r cyfrifon sylfaenol tan ategol y ddau ar hugain o fyrddau iechyd lleol, y Bwrdd Ymarfer Deintyddol, a'r pedwar ar ddeg o ymddiriedolaethau GIG. Roedd prif archwilwyr y cyfrifon hyn yn cael eu penodi'n flaenorol gan y Comisiwn Archwilio. Er mwyn cyflawni fy nghyfrifoldebau o dan y Ddeddf, ac yn gyson ag egwyddorion Datganiad Safon Archwilio 510 (Y Berthynas rhwng y Prif Archwilydd ac Archwilwyr eraill), mae fy staff wedi adolygu gwaith y prif archwilwyr, wedi craffu ar eu hadroddiadau, ac wedi trafod eu darganfyddiadau gyda hwy.

**3.12** Ers creu Swyddfa Archwilio Cymru, yr wyf yn gwneud sylw arni yn Rhan 5 yr Adroddiad hwn, deuthum yn archwilydd allanol statudol yr holl gyrff GIG yng Nghymru a bydd adroddiadau 2004/2005 y cyrff hynny'n cael eu gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

## Cyngor i gyfran-ddeiliaid eraill

***Mae delio gyda gohebiaeth gan gyfran-ddeiliaid yn parhau i fod yn agwedd bwysig o'm gwaith.***

**3.13** Mae ymwybyddiaeth eang o'm gwaith fel gwarchodwr annibynnol o wariant cyhoeddus yng Nghymru yn arwain at i mi dderbyn ymholiadau a mynegiant o gonsyrn ynghylch rheolaeth ariannol, gwerth am arian, a rheolaeth briodol o fusnes cyhoeddus. Daw'r fath ohebiaeth o ffynonellau amrywiol, yn cynnwys Aelodau Cynulliad, y cyhoedd, busnesau, a swyddogion.

**3.14** Ystyriaf fod delio gyda gohebiaeth o'r fath yn agwedd bwysig o'm gwaith, a chredaf ei bod yn bwysig i bobl Cymru wybod fod pob consyrn a godir gyda mi yn cael ei archwilio'n drwyadl ac yn wrthrychol, a'm bod yn ymateb yn brydlon. Rwyf yn croesawu'n arbennig ohebiaeth sy'n gysylltiedig â defnydd adnoddau cyhoeddus neu'r modd y mae gweithgareddau busnes yn cael eu cynnal gan eu bod yn rhoi ffynonellau gwybodaeth ychwanegol i mi ac yn nodi testunau sydd o gonsyrn tu allan i'r sianelau swyddogol. Hyd yn oed pan fo gan ohebydd gamsyniadau ynghylch eitem neilltuol o fusnes cyhoeddus, rwyf yn meddwl ei fod yn ddefnyddiol ymdrin â'r rhain trwy ddarparu eglurhad llawn o'r sefyllfa.

**3.15** Yn ystod 2003/2004, derbyniodd Syr John tua 60 o lythyrau gan Aelodau Cynulliad, Aelodau Seneddol, a'r cyhoedd. Roedd y materion a godwyd gan y gohebwyr yn cynnwys consyrn ynghylch:


- y gwerth am arian a geir trwy ddarparu cefnogaeth i fusnesau yng Nghymru, ac wrth waredu asedau cyhoeddus;
- rheoleidd-dra a phriodoldeb gwariant gan y Cynulliad a chyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad; a
- rheolaeth neu gymhwysiad arian cyhoeddus sy'n arwain at oedi neu ddiffygion mewn darparu gwasanaethau cyhoeddus.

Roedd nifer o'r llythyrau a dderbyniwyd yn golygu fod angen archwiliad gan Swyddfa Archwilio Cenedlaethol Cymru yn ogystal â gwaith archwilio cynlluniedig yr Archwilydd Cyffredinol, ac yr oedd y mwyafrif angen ateb sylweddol.

**3.16** Yn ogystal â'm dull cyffredinol o ddelio gyda gohebiaeth, mae gennyf rôl statudol benodol fel "person rhagnodedig" o dan y Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd i dderbyn datgeliadau sy'n gysylltiedig â rheolaeth briodol busnes cyhoeddus, gwerth am arian, twyll a llygredd yng nghyswllt darparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r Ddeddf yn cynnig diogelwch i weithwyr sy'n datgelu er lles y cyhoedd ynghylch camweddau yn y man gwaith - "whistleblowers", fel y cânt eu hadnabod yn gyffredinol. Tra bod cyfran o'r ohebiaeth o'r natur hon sy'n cael ei chyfeirio ataf yn ymddangos yn weddol fach, gan fy mod yn archwilio'r fath ddatgeliadau'n drwyadl mae'n cynrychioli ffynhonnell sylweddol o waith.

**3.17** Ffynhonnell newydd o alwadau am wybodaeth a chyngor yw Deddf Hawl i Wybodaeth 2000. Er nad oedd y brif ddarpariaeth "hawl cyffredinol at fynediad" yn cychwyn tan ar ôl 2003/2004, yn Chwefror 2004, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol ei gynllun cyhoeddiadau, fel yr oedd yn ofynnol o dan y Ddeddf. Arweiniodd hyn at nifer fechan ond cynyddol o ymholiadau ynghylch gwaith yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer Cymru a

AGW General Report 2005 Welsh2.qxp 23/6/05 4:01 pm Page 21



gweinyddiaeth fewnol, gyda'r mwyafrif o'r rhain yn deillio oddi wrth academyddion a busnesau sy'n cynnig gwasanaethau proffesiynol a chefnogol. Ceisiodd fy rhagflaenydd fod o gymorth wrth ymateb i'r ymholiadau hyn yn yr un ffordd i bob pwrpas ag y byddai'n ymateb i ohebiaeth arall. Ac yn ystod y flwyddyn, mae staff Swyddfa Archwilio Cenedlaethol Cymru wedi bod yn gweithio i baratoi ar gyfer cychwyn cyflawn y Ddeddf.

***Gall cyswllt oddi wrth gyfran-ddeiliaid arwain at wneud archwiliadau manwl.***

**3.18** Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith gohebiaeth y cyfeirir ato uchod yn arwain at ymateb ysgrifenedig at y gohebydd, ond ar brydiau, fel yn yr achos a ddisgrifir isod, gall archwiliad manwl fy staff awgrymu fod y mater dan sylw o bwysigrwydd sy'n teilyngu i mi gyflwyno adroddiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Archwiliad i gwymp Asiantaeth Fusnes.

## Archwiliad i gwymp Asiantaeth Fenter

**3.19** Mewn ymateb i geisiadau ysgrifenedig gan ddau Aelod Cynulliad, cynhaliodd fy staff archwiliad o gyllid sector gyhoeddus a roddwyd i asiantaeth fenter leol yn y cyfnod cyn iddi ddod yn fethdalwr; a'r gweithrediadau a gweithredoedd monitro'r cyrff cyllido perthnasol. Roedd y mwyafrif o waith yr asiantaeth fenter benodol hon yn cael ei gyllido drwy gontractau gyda dau o gyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad yn achos prosiectau Cronfa Strwythurol Ewropeaidd. Gellir dysgu gwersi gan gyrff cyhoeddus eraill.

**Y gwersi y gall cyrff cyhoeddus eraill eu dysgu**

**3.20** Mae darganfyddiadau'r archwiliad wedi eu cyhoeddi'n llawn mewn adroddiad.[4] Tra bod cwymp yr asiantaeth fusnes lleol wedi digwydd yn bennaf oherwydd ei rheolaeth ariannol wael ei hun, y prif ddarganfyddiadau sydd o berthnasedd ehangach yw y dylai ceiswyr am brosiectau Cronfa Strwythurol Ewropeaidd sicrhau:

- fod digon o arian cyfatebol o ffynonellau preifat neu gyhoeddus wedi eu sicrhau cyn gwneud ymrwymiadau cytundebol a allai roi eu hyfywedd ariannol eu hunain mewn perygl; ac

- fod ganddynt y cynhwysedd ariannol, y systemau monitro a chyfrifo addas, a'r sgiliau sydd eu hangen i sefydlu'r prosiectau, dosbarthu contractau, a chynnal eu hyfywedd gweithredol ac ariannol.


**3.21** Mae hefyd yn bwysig bod cyrff sector cyhoeddus sy'n ariannu a goruwchwylio prosiectau grant yn sicrhau cyfarthrebu priodol. (Yn yr enghraifft hon, achos diffyg mewnol o ran cyfarthrebiad, nid oedd swyddogion Llywodraeth y Cynulliad a oedd yn gyfrifol am brosesu cais Ffyrdd i Ffyniant yr asiantaeth fenter leol yn gwybod am gyfnod byr ei bod wedi atal ei chais.

**3.22** Mae dogfen ymgynghorol Llywodraeth y Cynulliad 'Creu'r Cysylltiadau: Gwell Gwasanaethau i Gymru', yn nodi fod gyrwyr diwygio'r sector gyhoeddus a gyhoeddwyd hyd yma yn cynnwys lleihau'r cyfnod gwneud penderfyniadau; dileu'r gwneud penderfyniadau deuol sy'n bodoli gan y Cynulliad a'r cyrff a noddir ganddo, a mabwysiadu dull 'siop un-stop' pryd bynnag fo hynny'n briodol. Dylai'r cynigion hyn gynorthwyo i ymdrin â'r materion a adnabuwyd. Rwyf yn gwbl gefnogol i fwriad Llywodraeth y Cynulliad i ymyrryd yn y maes hwn ac edrychaf ymlaen at gynorthwyo yn y broses o newid y mae'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn ei wynebu.

## Rhannu arbenigedd a gwybodaeth

**Rwyf am i'm staff fynychu seminarau perthnasol i rannu ein harbenigedd a gwybodaeth o arfer gorau gyda'r sector gyhoeddus yng Nghymru**

3.23 Cynhaliodd Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg (CIPFA) ei bedwaredd gynhadledd Gymreig yn Nhachwedd 2004, gyda'r thema 'Ymgeisio am Ardderchowgrwydd'. Anerchwyd y gynhadledd gan y Rheolwr Prosiect sy'n arolygu'r gwaith o greu Swyddfa Archwilio Cymru newydd, gan roi i'r cynadleddwyr olwg ar y buddiannau mewnol ac allanol a ddisgwylir gan y sefydliad archwilio unedig; amlinelliad o sut y bydd Swyddfa Archwilio Cymru newydd yn ceisio cael llwyddiant; a dangosodd sut mae ethos swyddfa archwilio unedig yn ategu gweledigaeth Llywodraeth y Cynulliad i wella gwasanaethau cyhoeddus fel y'i nodir yn 'Creu'r Cysylltiadau: Gwell Gwasanaethau i Gymru'.





# Rhan 4: Datblygiadau ers yr Adroddiad Cyffredinol diwethaf

## *Yn y rhan hwn o'r adroddiad, rwyf yn cynnwys diweddariad ar ddau faes a grybwyllwyd yn yr Adroddiad Cyffredinol blaenorol*

**4.1** Yn ei adroddiad 2004, nododd Syr John ei fwriad i adrodd ar ddatblygiadau mewn dau faes cyfoes:

- cynnydd ychwanegol a chyflawniad pellach Menter Gaffael Cymru (y Fenter) a'r lefel y mae sector gyhoeddus Cymru wedi ymgymryd â'r mentrau a rhaglenni sydd erbyn hyn ar gael iddynt; a'r
- cynnydd a wnaethpwyd yn achos cau rhaglenni Cronfa Strwythurol Ewropeaidd 1994 -1999 a sylwadau Swyddfa Archwilio Cymru a ddeilliodd o'i archwiliadau o hawliadau gwariant grant Ewropeaidd.

## Menter Gaffael Cymru

**4.2** Mae gwaith Menter Gaffael Cymru yn dangos fod sgôp o hyd i sector gyhoeddus Cymru gael effeithlonrwydd pellach yn ei gwariant ar gaffael. Caf fy nghalonogi fod cyfranogaeth cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad mewn mentrau caffael wedi cynyddu ac edrychaf ar i'r holl gyrff yr wyf yn eu harchwilio ymgymryd â Gwiriad Ffitrwydd Caffael os nad ydynt eisoes wedi gwneud hynny. Rwyf hefyd yn croesawu'r gostyngiad sylweddol yn nifer yr argymhellion archwiliad y bu raid eu gwneud ar gaffael, ac edrychaf at y cyrff i gynnal y cynnydd da a gyflawnwyd yn y maes hwn.

***Mae Menter Gaffael Cymru (y Fenter) wedi parhau i gael effaith ariannol fuddiol ar gostau caffael sector gyhoeddus.***

**4.3** Mae'r Fenter wedi adrodd cynilion o £5.5 miliwn ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru yn gyfan gwbl ar gyfer 2004. Mae hefyd wedi dynodi cynilion ychwanegol o £24.7 miliwn y gellir eu cyrraedd yn 2005, yn erbyn targed o £24 miliwn. Daeth yr arbedion hyn yn bennaf o bwrcasau nwyddau a gwasanaethau yn gydweithrediadol,gan gynnwys telegyfarthrebu,deunyddiau ysgrifennu, a llogi ceir. Gwnaf sylwadau ar ddefnydd contractau cydweithrediadol ym mharagraff 4.6.

**4.4** Yn ystod 2004, roedd gwaith y Fenter yn cynnwys:

- increasing the number of all-Wales collaborative contracts.
- Llywyddu cynhadledd agoriadol Cymru-gyfan ar gaffael;
- Hwyluso'r arwerthiannau-e cyntaf, ble'r oedd cyflenwyr potensial yn cystadlu yn erbyn ei gilydd i ennill contractau cydweithrediadol i gyflenwi sector gyhoeddus Cymru gyda deunyddiau ysgrifennu a deunyddiau swyddfa ac offer cyfrifiadurol ac offer cysylltiedig; a
- Cynyddu'r nifer o gontractau cydweithrediadol Cymru-gyfan.

AGW General Report 2005 Welsh2.qxp 23/6/05 4:01 pm Page 24

**Cynhadledd Gaffael Cymru-gyfan**

**4.5** Cynhaliwyd cynhadledd Cymru-gyfan ar gaffael ym mis Rhagfyr 2004. Thema'r gynhadledd oedd 'Trawsffurfio Caffael' a mynychodd pobl caffael broffesiynol i glywed barn y prif siaradwyr ar bynciau yn cynnwys: persbectif cyfreithiol ac archwilio caffael; sut y gall datblygiad economaidd yng Nghymru gael ei chefnogi'n well trwy weithio'n agosach â'r sector breifat, a sut y gall caffael sector gyhoeddus gefnogi datblygiad cynaliadwy yn fwy effeithlon. Rhoddodd aelod o'm staff hefyd gyflwyniad yn y gynhadledd ar 'bersbectif archwilio' caffael cyhoeddus.

**Contractau cydweithrediadol Cymru-gyfan**

***Cynyddodd y nifer o gontractau cydweithrediadol Cymru-gyfan.***

**4.6** Mae contractau cydweithrediadol yn galluogi sefydliadau i weithio mewn consortiwm i facsimeiddio eu potensial i gael gwerth am arian o'u pwrcasu. Mae contractau o'r fath yn awr yn cynnwys:

- Llogi cerbydau – mae'r trefniant hwn yn cynnwys pum chyflenwr: dau yn gwasanaethu Gogledd Cymru; dau yn gwasanaethu De Cymru; a chyflenwr wrth gefn Cymru-gyfan. Mae'r WPI yn amcangyfrif y gellir gwneud arbedion oddeutu 30-50 y cant gan gyrff sy'n defnyddio'r contract hwn.

- Deunyddiau ysgrifennu a deunyddiau swyddfa eraill – daeth y trefniant hwn yn effeithiol yn Rhagfyr 2004 ac mae'n cynnwys tri chyflenwr a enillodd eu safle drwy broses bidio gystadleuol ar y rhyngrwyd. Mae'r cyrff sy'n defnyddio'r contract hwn yn adrodd bod arbedion o 57 y cant wedi eu gwneud ar eu gwariant blynyddol ar ddeunyddiau ysgrifennu.

- Nwyddau a gwasanaethau eraill – gwnaethpwyd cytundebau fframwaith yn ddiweddar ar gyfer pwrcasu cydweithrediadol o gyfrifiaduron personol, gliniaduron ac argraffwyr; cyfleusterau llungopïo ac argraffu digidol; a chyfathrebu lleisiol.

***Mae cyfranogaeth gan gyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad mewn mentrau y Fenter wedi cynyddu.***


**4.7** O'i waith archwilio yn 2003/2004, darganfu fy rhagflaenydd fod mwy na hanner y clientau archwilio yn cyfranogi yng ngweithgareddau'r y Fenter. Yn ogystal â chyfranogi mewn trefniadau pwrcasu cydweithrediadol, roedd gweithgareddau'r cyrff yn amrywio o fynychu cyrsiau hyfforddiant arbenigol neu seminarau i wneud defnydd o ganllawiau arfer gorau.

**4.8** Cwblhawyd Gwiriadau Ffitrwydd Caffael, a ddyluniwyd i gynorthwyo sefydliadau i adnabod eu cryfderau caffael yn ogystal ag i adnabod lle y gellir gwella, mewn chwe chorff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad. Ar hyn o bryd, mae gwirio'n cael ei wneud ar gynnydd yn Llywodraeth Cynulliad Cymru ac un corff arall a noddir. Mae'r Fenter yn ceisio cael gwirfoddolwyr eraill i ymgymryd â'u gwirio yn ystod 2005.

**Potensial rhesymoli 'gwasanaethau a rennir'**

**4.9** Mae'r astudiaeth sgôp yn cael ei gwneud gan y Fenter i edrych ar y ffordd orau i resymoli gwasanaethau canolog megis cyflogres o fewn Llywodraeth Leol Cymru. Bydd yr astudiaeth beilot hon yn sefydlu model y gellir ei defnyddio ar draws y sector gyhoeddus ehangach yng Nghymru ac ar gyfer 'gwasanaethau a rennir' eraill.

AGW General Report 2005 Welsh2.qxp 23/6/05 4:01 pm Page 25



### Adeiladu ar waith y Fenter a gweithredu ar weledigaeth y Cynulliad ar gyfer gwella gwasanaethau cyhoeddus


4.10 Mae llwyddiant y fenter beilot wreiddiol a'r potensial i gyflawni mwy fyth wedi ei chydnabod gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Yn 'Creu'r Cysylltiadau: Gwell Gwasanaethau i Gymru'[5] mae Llywodraeth y Cynulliad yn amlinellu ei bwriad i 'gynorthwyo gwasanaethau cyhoeddus i gael gwell gwerth am arian o gaffael, gwasanaethau cefnogol, a rheolaeth prosiectau trwy 'Gwerth Cymru', swyddfa caffael a chefnogaeth gwasanaeth Cymru'. O dan yr enw diwethaf hwn y bydd y WPI esblygol yn gweithredu yn y dyfodol. Bydd hefyd newidiadau eraill, megis gosod targed arbedion gwirioneddol (yn hytrach na rhai a adnabuwyd) i fonitro llwyddiant.

### Fy narganfyddiadau archwilio ar Gaffael

***Mae'r argymhellion archwilio sy'n gysylltiedig â chaffael wedi gostwng fwy na'u hanner, o'i gymharu â'r llynedd.***

- O'r argymhellion a wnaethpwyd i reolaeth clientau o'r gwaith archwilio yn natganiadau ariannol 2003/2004, roedd llai nag un ym mhob deg yn ymwneud â chaffael. Mae hyn yn ostyngiad sylweddol o'r llynedd, pan yr oedd un o bob pump o'r holl argymhellion yn gysylltiedig â chaffael. Buaswn, fodd bynnag, yn amlygu'r nifer o ddarganfyddiadau o dan 'diffyg cydymffurfio â gweithdrefnau contract a thendro' fel maes pwysig y mae angen i gyrff a archwilir dalu sylw neilltuol iddynt. Dengys **Ffigwr 5** ddadansoddiad o'r argymhellion a wnaethpwyd yn y maes hwn.

**Ffigwr 5: O'i gymharu â'r llynedd, bu gostyngiad yn y cwbl heblaw un o'r pedwar o'r categorïau o sylwadau ar gaffael**




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru o argymhellion i gyrff clientau, 2003/2004*

# Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd

**4.11** Mae gwerth cyfansymiol cyllid Cymru y bu raid ei ad-dalu hyd yn hyn i'r Comisiwn Ewropeaidd yn llai na 0.2 y cant o gyllid CE a dderbyniwyd ar gyfer cyfnod rhaglenni 1994/1999. Mae'n bwysig, fodd bynnag, fod Llywodraeth Cynulliad Cymru a noddwyr prosiect yn dysgu gwersi o broses cau 1994/1999 i leihau gymaint â phosib unrhyw golled ariannol yn achos rhaglenni presennol, sydd yn llawer mwy o ran gwerth.

**4.12** Cefais fy hysbysu gan swyddogion Llywodraeth y Cynulliad fod Swyddfa Cyllid Ewrop Cymru (WEFO) yn gweithredu i sicrhau fod noddwyr prosiectau yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau a bod Gwasanaeth Archwilio Mewnol y Cynulliad a WEFO'n arwain gwaith a luniwyd i sicrhau fod gweithdrefnau'r Deyrnas Unedig i gau rhaglenni'n rhai cadarn. Bydd fy staff hefyd yn parhau i weithio'n agos â noddwyr prosiectau a Llywodraeth y Cynulliad i ddarparu cefnogaeth a chanllawiau i'r cyrff yr wyf i'n archwiliwr apwyntiedig iddynt.

### Cau Rhaglenni 1994/1999

***Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn awr wedi cymeradwyo cau ychydig dros hanner y Rhaglenni, ond mae'r gweddill yn dal i fod dan ystyriaeth.***

**4.13** Yn ei Adroddiad Cyffredinol olaf, adroddodd fy rhagflaenydd ar y cynnydd a wnaethpwyd yng nghyswllt cau'r Rhaglenni Ewropeaidd 1994-1999. Nododd fod Pennaeth Archwilio Mewnol y Cynulliad wedi cynhyrchu adroddiadau cau yng nghyswllt yr 18 rhaglen oedd yn weithredol yng Nghymru a bod y cwbl ond un o'r barnau archwilio cysylltiedig wedi eu cymhwyso. Gan nad oedd y broses o gau wedi ei chwblhau, dywedodd y byddai'n adolygu'n fanwl y datblygiadau yn y maes hwn ac yn adrodd arnynt, os oedd angen, yn Adroddiad Cyffredinol eleni.

**4.14** Fel corff archwilio annibynnol a ddynodwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru, mae Pennaeth Archwilio Mewnol o ganlyniad wedi cymryd arno'i hun waith ychwanegol mewn cydweithrediad â staff Llywodraeth y Cynulliad o fewn WEFO. O ganlyniad, bu'n bosib iddo faintioli'r problemau penodol a


**Ffigwr 6: Mae'r 9 o'r 18 Rhaglen a gaewyd hyd yma wedi arwain at adennill i'r Comisiwn Ewropeaidd oddeutu £476,000 (0.175 y cant) o'r cyllid a gafwyd**

| Rhaglen 1994/1999 | Cyllid Strwythurol i Gymru (£) | Sefyllfa Cau | Addasiad Cyllidol Cyfansymiol Hyd yn Hyn (£) |
|---|---|---|---|
| Prif gyfrifoldeb gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (a chyrff rhagflaenol): 10 rhaglen yn cynnwys ISW 1997-99 , Interreg II, Rechar II, Resider II, SME and Urban (wedi eu cyllido gan Gronfa Datblygiad Rhanbarthol Ewropeaidd), Rural Cymru II (cyllidwyd gan EAGGF a ERDF). | £226,159,475 | 7 o'r 10 rhaglen wedi eu cau | £354,440 |
| Prosiectau a gefnogwyd fel rhan o fentrau traws-DU: 8 rhaglen yn cynnwys Konver II, Retex II a Pesca II (gyda'r Adran Masnach a Diwydiant) ac Pesca II (gyda'r Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig). | £45,067,059 | 3 o'r 8 rhaglen wedi cau | £121,670* |
| **Cyfanswm** | **£271,226,534** | | **£476,110** |

** Y gost i'w chymryd gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA)*

*Ffynhonnell: Cynulliad Cenedlaethol Cymru*

AGW General Report 2005 Welsh2.qxp 23/6/05 4:01 pm Page 27



gafwyd gyda gwariant a wnaethpwyd o £476,110, ac mae wedi argymell y dylai'r Comisiwn dderbyn cau'r rhaglenni, ar ôl tynnu'r swm yma allan. Mae'r Comisiwn wedi derbyn yr argymhelliad yng nghyswllt naw o'r rhaglenni, ond mae eto i gwblhau ei ystyriaeth o'r rhaglenni sy'n weddill. Yn bennaf y rhai sy'n ymwneud â Chronfa Cyfarwyddo a Gwarantu Amaethyddiaeth Ewrop a'r cyllid Offeryn Cyllidol ar gyfer Pysgodfeydd, ac i Raglen Diwydiannol De Cymru lle mae'r Comisiwn yn cynnal archwiliad fel rhan o'r ymarfer cau Ewrop gyfan. Mae'r addasiadau cyllidol yn cael eu gwneud yn ystod y flwyddyn ariannol 2005/2006. Dangosir crynodeb o'r broses cau rhaglenni ac digwyddiadau ariannol yn **Ffigwr 6**.

**4.15** Byddaf yn parhau i fonitro datblygiadau yng nghyswllt cau'n derfynol Raglenni 1994/1999 a byddaf yn adrodd eto, fel y bo'r angen, yn fy Adroddiad Cyffredinol nesaf.

### Archwilio ceisiadau a gafwyd yng nghyswllt y Rhaglenni Ewropeaidd cyfredol

***Nid yw'r gweithredoedd yr ymgymerodd rheolwyr â hwy hyd yma wedi cael amser eto i arwain at welliannau i'r darganfyddiadau archwilio.***

**4.16** Archwiliodd Swyddfa Archwilio Cymru geisiadau a gafwyd am gyllid Ewropeaidd gan saith o'r cyrff clientau y cyfeiriaf atynt yn Rhan 1 o'r Adroddiad Cyffredinol hwn.

**4.17** Yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Rhagfyr 2004, cyhoeddodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol gyfanswm o 42 tystysgrif archwilio. Roedd y cwbl ond un o'r rhain wedi eu cymhwyso, gyda chyfartaledd o bum sylw archwilio wedi ei gwneud ar bob un. Mae hyn yr un lefel o weithgaredd a nodwyd yn yr Adroddiad Cyffredinol diwethaf (31 tystysgrif archwilio yn y naw mis hyd at 31 Rhagfyr 2003) a dim newid yn y nifer cyfartalog o sylwadau archwilio ar wahân a wnaed ar bob cais.

**4.18** Nododd yr archwilwyr na fu newid arwyddocaol yn natur y darganfyddiadau yr oeddynt wedi adrodd arnynt. Mae'r rhan fwyaf o sylwadau'n dal i gael eu gwneud yng nghyswllt cydymffurfio â Rheoliadau'r Comisiwn, canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac/neu weithdrefnau a fabwysiadwyd gan gyrff clientau. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae enghreifftiau o'r fath ddarganfyddiadau'n cynnwys:

- gwariant a wnaethpwyd cyn dyddiad cychwyn y prosiect;
- costau a ddeilliodd o wybodaeth anghywir, neu hen wybodaeth;
- manylion cyllidol ar ffurflenni cais yn anghyson â chytundebau prosiectau; a
- methiant i gynnal ymweliadau monitro gyda darparwyr yn ystod cyfnod yr hawlio.

**4.19** Ble yr adnabuwyd gwariant anghymwys gan yr archwiliad, roedd WEFO yn lleihau'r swm a delid i'r noddwyr prosiect.

**4.20** Yn ei Adroddiad Pwyllgor, Adroddiad Cyffredinol Archwilydd Cyffredinol Cymru 2004, argymhellodd Pwyllgor Archwilio Cynulliad Cenedlaethol Cymru y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru 'fod yn fwy rhagweithiol i wneud yn gwbl glir i noddwyr prosiectau'r safonau o reolaeth gyllidol a ddisgwylir ganddynt'. Rwyf yn cydnabod y gwaith sy'n cael ei wneud gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gydymffurfio â'r argymhelliad hwn a buaswn yn disgwyl i hyn arwain at welliannau i'r dyfodol.



# Rhan 5: Edrych Ymlaen

***Yn y rhan hwn o'r adroddiad, edrychaf y tu draw i flwyddyn ariannol 2004/2005 ac ystyried newidiadau potensial i sgôp fy ngwaith yn 2005/2006 ac wedi hynny.***

## Swyddfa Archwilio Cymru

**5.1** Cafodd y broses gyfreithiol i sefydlu un corff archwilio cyhoeddus i Gymru ei chwblhau yn ystod 2004/2005 gyda gweithredu Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a deddfwriaeth eilaidd gysylltiedig. Creodd y Ddeddf Swyddfa Archwilio Cymru a ddaeth i fodolaeth o'r 1af Ebrill 2005. Mae'r corff newydd, gyda mi'n bennaeth arno fel Archwilydd Cyffredinol Cymru, yn perfformio'r swyddogaethau a wnaethpwyd yn flaenorol yng Nghymru gan y Comisiwn Archwilio ac, ar fy rhan, gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru.

**5.2** Fel Archwilydd Cyffredinol Cymru, byddaf yn gweithredu fel archwilydd allanol statudol o'r datganiadau cyllidol a ddarperir gan gyrff lleol GIG Cymru, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, (yn cynnwys cyfrifon cryno GIG Cymru), ac ystod eang o gyrff cyhoeddus eraill a noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, neu sy'n gysylltiedig â hi. O dan y Ddeddf, rwyf yn mwynhau grymoedd mynediad archwilio cryfach, ac rwyf hefyd wedi cael cyfrifoldeb am benodi archwilwyr allanol i gyrff llywodraeth leol yng Nghymru.


**5.3** I'm cynorthwyo i gyflawni fy nghyfrifoldebau rwyf wedi datblygu Côd Ymarfer Archwilio ac Arolygu sy'n amlinellu sut y bydd y dyletswyddau a grymoedd a osodir gan y Ddeddf yn cael eu gweithredu gan fy staff ac archwilwyr eraill sy'n gweithio o dan fy awdurdod. Cymeradwywyd y Côd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 4 Mai 2005 a'i osod gerbron y Senedd a bydd yn weithredol yn achos bob gwaith archwilio ac arolygu a wneir o'r flwyddyn ariannol 2005/2006 ymlaen.

## Diwygio'r sector gyhoeddus yng Nghymru

**5.4** Yn ystod 2004/2005, gwnaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ddau gyhoeddiad yn ymwneud â'i diwygiad arfaethedig o gyrff cyhoeddus gweithredol a noddir, fel a ganlyn:

- Roedd y cyhoeddiad cyntaf yn ymwneud â'r cyrff cyhoeddus mwyaf a noddir gan y Cynulliad: Awdurdod Datblygu Cymru; Bwrdd Croeso Cymru a Chyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant. Bydd y cyrff hyn yn cael eu cyfuno â Chynulliad Cenedlaethol Cymru ar 1 Ebrill 2006; ac
- Yr oedd yr ail gyhoeddiad yn cynnwys cyfuno tri chorff pellach: Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru; Proffesiynau Iechyd Cymru (y ddau gorff erbyn Ebrill 2006); a Bwrdd yr Iaith Gymraeg (dyddiad i'w gadarnhau). Mae'r Cyngor Chwaraeon a'r Cyngor Celfyddydau hefyd yn mynd i gael eu hymryddhau oddi wrth gyfrifoldebau strategaeth, polisi a chynllunio; a bydd Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn symud y cyfrifoldeb am gynllun amaeth-amgylchedd Tir Gofal i Lywodraeth y Cynulliad.

AGW General Report 2005 Welsh2.qxp 23/6/05 4:01 pm Page 29



**5.5** Mae fy staff yn chwarae rôl yn cynorthwyo cyrff clientau yn ystod cyfnod trawsnewid y broses gyfuno. Er enghraifft, maent yn darparu cyngor ar faterion rheoli risg, mynychu cyfarfodydd ymchwil, a chymryd rhan mewn gweithgorau sy'n edrych ar nifer o feysydd arbenigol, yn cynnwys sut orau i gyfuno gwahanol systemau cyfrifeg a weithredir ar hyn o bryd gan y cyrff perthnasol. Rwyf yn croesawu'r ymwneud yma, ac yn edrych i gynnig gymaint o gymorth pellach â phosib dros y flwyddyn nesaf i'r cyrff clientau sy'n rhan o'r cyfuno gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru.


## Casgliad

**5.6** Parhaodd Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru i gynnig cyngor i sefydliadau client drwy gydol 2004, yn ffurfiol ac yn anffurfiol, ar ystod o faterion cysylltiedig â chyllid. Byddaf i, ynghyd â staff y corff archwilio newydd, yn parhau i fod yn ymrwymedig i sicrhau fod Llywodraeth Cynulliad Cymru a'i gyrff a noddir yn cynnal lefel uchel o reoleidd-dra a phriodoldeb yn eu gweithgareddau dydd i ddydd ac wrth wasanaethu pobl Cymru. Bydd hyn yn arbennig o bwysig yn ystod cyfnod o newid strwythurol sylweddol i lawer o'r cyrff mawr a archwilir yn y sector llywodraeth ganol.

# Atodiad 1: Rhestr o adroddiadau Gwerth am Arian a gyhoeddwyd yn 2003/2004

- Rheolaeth a chyflenwi gwasanaethau glanhau ysbytai yng Nghymru
- Adnewyddu tai sector breifat yng Nghymru
- Iawndal i ffermwyr am dwbercwlosis mewn gwartheg yng Nghymru
- ELWa - Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant: Rheolaeth Gyllidol o bartneriaeth ac arloesi & phrosiectau datblygu
- Taliadau hwyr i ffermwyr yng Nghymru
- Rheolaeth absenoldeb salwch gan ymddiriedolaethau GIG yng Nghymru

AGW General Report 2005 Welsh2.qxp 23/6/05 4:01 pm Page 31



# Atodiad 2: Cyfrifon a gynhwysir yn yr adroddiad hwn

Mae'r Adroddiad yn cynnwys canlyniadau archwiliad yr holl gyfrifon 2003/2004 a ddarparwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a chyrff cyhoeddus eraill yr wyf yn eu harchwilio. Rhoddir rhestr gyflawn isod:

## Cyfrifon a ddarparwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru

- Cyfrif Adnoddau Craidd y Cynulliad
- Cyfrif Adnoddau Cyfunol y Cynulliad
- Cadw: Henebion Hanesyddol Cymru
- Comisiwn Iechyd Cymru (Gwasanaethau Arbenigol)
- Ardrethi annomestig Cymru
- Cyfrif Cryno Byrddau Iechyd Lleol yng Nghymru
- Cyfrif Cryno Ymddiriedolaethau GIG yng Nghymru
- Cyfrif Cryno o'r Cyfrifon a Ddelir mewn Ymddiriedolaeth gan y Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau GIG yng Nghymru

## Cyfrifon a baratowyd gan gyrff eraill wedi eu dosbarthu yn ôl maes pwnc

**Amaethyddiaeth a Datblygiad Gwledig**

- Cyngor Cefn Gwlad Cymru
- Comisiwn Coedwigaeth Cymru
- Menter Goedwigaeth Cymru

**Datblygu Economaidd**

- Bwrdd Croeso Cymru
- Awdurdod Datblygu Cymru

**Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

- Cyngor Gofal Cymru
- Comisiynydd Gwasanaeth Iechyd Cymru
- Proffesiynau Iechyd Cymru

**Llywodraeth Leol a'r Amgylchedd**

- Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru

**Addysg a Gysgu Gydol Oes, Chwaraeon, Diwylliant a Threftadaeth**

- Cyngor Celfyddydau Cymru
- Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant.
- Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
- Llyfrgell Genedlaethol Cymru
- Llyfrgell Genedlaethol Cymru - Cyfrif Cynllun Blwydd-dal Staff
- Amgueddfa ac Orielau Cenedlaethol Cymru
- Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru
- Cyngor Chwaraeon Cymru
- Cyngor Chwaraeon Cymru Cyfrif Ymddiriedolaeth
- Bwrdd yr Iaith Gymraeg
- Estyn
- Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru

**Arall**

- Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru
- Comisiynydd Plant Cymru

**Cyfrifon Cymreig a archwiliwyd gan Reolydd ac Archwilydd Cyffredinol a'u gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Y Rheolydd ac Archwilydd Cyffredinol oedd yn gyfrifol am archwilio'r cyfrifon Cymreig canlynol am 2003/2004:


**Cyfrifon Dosbarthu Arian y Loteri Cyngor Chwaraeon and Cyngor Celfyddydau**

Mae Cyngor Chwaraeon Cymru a Cyngor Celfyddydau Cymru yn ddosbarthwyr arian Loteri. Mae'r ddau'n darparu cyfrif blynyddol ar wahân i gwblhau eu swyddogaethau Loteri. Nid yw'r cyfrifoldeb dros y gweithgareddau hyn wedi ei ddatganoli, ond yn hytrach cânt eu gweithredu o dan awdurdod dirprwyol yr Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon.

**Cronfa Cyfarwyddo a Gwarantu Amaethyddiaeth Ewrop**

Mae'r gronfa Ewropeaidd hon yn talu cymorthdaliadau i ffermwyr Cymru, sy'n cael ei sianelu drwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Chyngor Cefn Gwlad Cymru. Nid yw hon yn swyddogaeth ddatganoledig, a darperir cyfrif blynyddol gan bob corff ar y ffurf a ddynodwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd.

AGW General Report 2005 Welsh2.qxp 23/6/05 4:01 pm Page 33



# Nodiadau

1 Creu'r Cysylltiadau: Gwell Gwasanaethau i Gymru', cyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru Hydref 2004

2 Cyllid GIG Cymru 2005

3 Creu'r Cysylltiadau: Gwell Gwasanaethau i Gymru cyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru Hydref 2004

4 Cwymp Antur Dwyryd-Llyn, Mehefin 2005

5 Creu'r Cysylltiadau: Gwell Gwasanaethau i Gymru cyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru Hydref 2004